



Bwletin GwE



Rhannwch ein bwletin â thîm staff yr ysgol i gyd ac anogwch eich holl gyd-weithwyr i ymuno â'n [rhestr bostio](#).

Diolch

STAFF ADDYSGU CYMRU SCHOOL STAFF



Neges gan GwE

Gyda blwyddyn addysgol tra gwahanol yn dod i ben, hoffem, unwaith eto, gydnabod y gwaith sylweddol a wnaed gennych chi a'ch gyd-weithwyr wrth i chi agor yr ysgol i ragor o ddysgwyr yn yr wythnosau diwethaf. Mae datblygu a gweithredu strategaethau i ofalu am iechyd a lles eich staff a'ch pobl ifanc yn gyflawniad aruthrol. Rydym yn ymwybodol o'r gwaith a'r cynllunio a aeth i mewn i groesawu disgyblion yn ôl i ail gydio, dal i fyny a pharatoi ar gyfer mis Medi.

Ochr yn ochr â'r amryfal heriau rydych wedi eu hwynebu, mae'r wythnosau diwethaf o'r tymor hwn hefyd wedi bod yn gyfle i chi ymgysylltu ac ail-gadarnhau y berthynas gadarnhaol o fewn cymuned yr ysgol. Mae gofalu am iechyd a lles dysgwyr, staff ac oedolion ar safleoedd ysgol wedi bod yn flaenoriaeth wrth i chi roi eich cynlluniau ar waith. Mae arweinwyr ysgolion, staff, llywodraethwyr a theuluoedd wedi gwneud dychwelyd i'r ysgol yn brofiad cadarnhaol i blant a phobl ifanc. Cafwyd adborth hynod gadarnhaol gan blant a'u rhieni. Hyfryd ac ysbrydoledig yw gweld a chlywed llawenydd ein plant a'n pobl ifanc wrth iddynt ddychwelyd i'w lleoliadau cyfarwydd a gweld eu ffrindiau unwaith eto. Mae'n glir na fydd y sefyllfa yr ydym ynddi yn eu digalonni.

Gwerthfawrogi yn ddiffuant eich cefnogaeth a'ch ymrwymiad parhaus i gydweithio a chydweithredu. Cynhaliwyd trafodaethau adeiladol a byddwn yn parhau i weithio gyda chyd-weithwyr ar draws y rhanbarth wrth i ni symud i'r 'normal newydd' yn nhymor yr Hydref.

Cydnabyddwn yn llwyr yr heriau sylweddol sy'n eich wynebu o hyd, yn enwedig wrth i chi baratoi i agor i bob disgybl ym Medi. Byddwch yn dawl eich meddwl y byddwn ni'n parhau i flaenoriaethu cymorth i chi a'ch staff addysgu.

Ym mis Medi, bydd angen i ysgolion bwysu a mesur ffitrwydd eu disgyblion i ddysgu cyn mynd ati i gyflwyno dysgu newydd. Er mwyn helpu ysgolion gyda'u paratodau neu eu dull gweithredu i sicrhau dysgu i bob disgybl, bydd GwE a'r chwe awdurdod lleol yn darparu adnodd a fydd yn canolbwyntio, yn y lle cyntaf, ar dair gydran sy'n cyd-berthyn. Bydd y rhain yn gymorth i roi sylw i ffitrwydd disgyblion i ddysgu:

- Lles emosiynol a meddyliol
- Iechyd a ffitrwydd corfforol
- Sgiliau craidd rhifedd a llythrennedd, dysgu i ddysgu, sgiliau annibyniaeth.

Rydym yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i geisio cael cyllid ychwanegol i Ogledd Cymru i helpu targedu y dysgwyr hynny fydd â'r angen mwyaf. Bwriedir i hyn ategu eich dyraniad o'r £29 miliwn y bydd y Llywodraeth yn ei ddyrannu'n fuan i chi. Cewch wybod a fuon ni'n llwyddiannus neu beidio ym mis Medi.

Gyda diolch diffuant am bopeth yr ydych chi, a'ch staff a chymuned yr ysgol, yn ei wneud.

Dymuniadau gorau i chi, cadwch yn ddiogel a gobeithio y cewch chi seibiant haeddiannol dros yr Haf.

[Cliciwch yma](#) i lawrlwytho copi o'r llythyr.

Gwybodaeth a Chanllawiau GwE

Cysylltu â GwE

Rydym yma i helpu! Rydym ar-lein ac wrth law i gefnogi ysgolion a llywodraethwyr. Cysylltwch â ni ar post@gwegogledd.cymru ac fe atebwn cyn gynted ag y bo modd.



Datganiad: Llygaid Pawb ar Gymru

Bu'r gynhadledd ryngwladol yn ddiweddar, sef 'Llygaid Pawb ar Gymru' yn llwyddiant ysgubol. Yn ystod y dydd, bu dros 350 ymuno â'r gyfres o weithdai byw, a gwyliwyd llawer ohonynt gan grwpiau o ddysgwyr.

Roedd negeseuon a themâu pendant yn gwau drwy'r diwrnod o safbwynt y Cwricwlwm i Gymru, yn arbennig felly y pedwar diben, Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu, Arweinyddiaeth a Llais y Dysgwr.

Er mwyn gweld y datganiad llawn, cliciwch [yma](#)

Dysgu Cyfunol

Cymerwch gipolwg ar [Datblygu Dulliau Integredig i Gefnogi Dysgu Cyfunol ar gyfer Agor Ysgolion yn Raddol](#) a ddatblygwyd ar y cyd rhwng y 4 consortia ac Estyn i gefnogi ailagor ysgolion.

Safle We Dysgu Cyfunol

CYNRADD: Gweler y ddolen ar gyfer y safle we 'dysgu cyfunol cynradd': <https://t.co/ByTNtoK2nG?amp=1>

UWCHRADD: Dilynwch y ddolen [hon](#) i safle cyfrwng Cymraeg 'dysgu cyfunol uwchradd'.

Cylchlythyr STEM Gogledd

[Cliciwch yma](#) am gopi o'r cylchlythyr diweddaraf



Sefydlu Athrawon Newydd Gymhwyso (ANG)

Yn 2020-21, bydd newidiadau **sylweddol** i reoliadau Sefydlu ANG, a bydd yn bwysicach nag erioed bod pob Mentor Sefydlu ysgol (MS), ANG a Gwiriwr Allanol (GA) yn mynychu un o'r sesiynau hyfforddi/ briffio cenedlaethol. Bydd ystod o sesiynau pwrpasol ar -lein ar gyfer pob rôl.

[Dylai ysgolion enwebu MS i fynychu sesiwn hyd yn oed os nad ydyn nhw wedi recriwtio athro fydd yn ANG ym mis Medi ar hyn o bryd, gan fod y mwyafrif o ysgolion yn cyflogi ANG ar ryw adeg yn ystod y flwyddyn academiaidd].

[Cliciwch yma](#) am fwy o wybodaeth/am ddyddiadau'r sesiynau hyfforddi.

Rhaglenni Datblygu

CPCP 2020-21 - Model Asesiad yn Unig

Oherwydd yr amgylchiadau presennol a'r effaith ar brosesau arferol yr asesiad CPCP, bydd model ychwanegol **CPCP - Asesiad yn Unig** ar gael yn y flwyddyn academiaidd 2020-21. Mae hyn yn benodol er mwyn cefnogi'r arweinwyr ysgol **hynny** sydd ar drothwy prifathrawiaeth ac sy'n disgwyl gwneud cais am swydd Pennaeth yn y 12 mis nesaf. Bwriedir y rhaglen ar gyfer ymarferwyr sy'n barod am asesiad **yn awr** ac nid yw'n cynnwys cefnogaeth ddatblygol. Dylai ymgeiswyr sicrhau ardystiad eu Pennaeth a'u rhanbarth. [Cliciwch yma](#) am fwy o wybodaeth am y drefn, y dyddiad cau ar gyfer ymgeisio ayb.

Os ydych yn awyddus i ddilyn rhaglen sy'n arwain at gymhwyster CPCP ond nad ydych ar drothwy prifathrawiaeth, dylech ystyried dilyn y llwybr ddatblygol, sef ymgeisio am y rhaglen ganlynol:

Rhaglen Genedlaethol i Ddatblygu Darpar Benaethiaid – Paratoi ar gyfer CPCP 2021-22

Mae'r rhaglen ddatblygu hon dros flwyddyn yn gyfle dysgu proffesiynol ar gyfer arweinwyr ysgol profiadol sy'n dymuno bod yn benaethiaid yn y dyfodol. Mae angen cwblhau'r rhaglen 5-diwrnod hon er cael mynediad at yr asesiad CPCP yn 2022.

[Cliciwch yma](#) am fwy o wybodaeth am y drefn, y dyddiad cau ar gyfer ymgeisio ayb.

Awgrymiadau ar gyfer Cefnogi Ein Dysgwyr Mwy Abl a Thalentog

Yn sgil y pandemig, datblygwyd gan dîm MATH traws-ranbarthol y consortia. [Cliciwch ar y ddolen hon](#) am awgrymiadau amserol ac ymarferol ar gyfer cefnogi ein dysgwyr mwy abl a thalentog dros y cyfnod dyrys hwn.

Prosiect Darllen Ar-lein Gogledd Cymru - Cadw Disgyblion i Ddarllen!

HEADSPROUT

Bellach, mae trwyddedau 30 diwrnod **RHAD AC AM DDIM** gan Headsprout, sy'n rhoi mynediad i hyfforddiant darllen a phecyn hyfforddiant cynhwysfawr ar-lein gan Brifysgol Bangor, sydd hefyd **AM DDIM**.

Am ragor o fanylion, [cliciwch yma](#).

Os hoffech chi ymuno â'r prosiect, neu ofyn unrhyw gwestiwn, anfonwch e-bost at sarah.e.roberts@bangor.ac.uk

Adnoddau Iaith Gymraeg

Flipgrid

Mae adnodd i gefnogi datblygu sgiliau siarad a gwrando trwy ddefnyddio Flipgrid wedi cael ei gyhoeddi ar Hwb. [Cliciwch yma i'w weld](#).

Dyddlyfr

Mae cadw dyddlyfr yn gallu bod yn llesol iawn, ac yn ffordd arbennig o rannu pethau sy'n bwysig i rywun.

[Dyma ddolen i greu Dyddlyfr ar-lein trwy ddefnyddio Adobe Spark](#).

Dolenni Defnyddiol

Google Classroom i Gymorthyddion Dysgu

- [Cyfarwyddiadau ar sut i gael mynediad i'r dudalen drwy ddefnyddio eich cyfrif Hwb](#)
- [Cyfarwyddiadau dwyieithog ar sut i ddefnyddio Google Classroom](#)
- [Dolen i drosais yn egluro beth sydd yn y Google Classroom](#)

Cysylltwch â WendyWilliams@gwegogledd.cymru i dderbyn y cod mynediad newydd ar gyfer y Google Classroom i Gymorthyddion Dysgu.



Adnoddau GwE ar Google Classroom

- [Arweiniad ar Google Classroom a Microsoft Teams](#)
- [Gwybodaeth bellach](#)

Diweddariadau Covid-19 GwE

- [Holl ddiweddariadau gwybodaeth GwE a anfonwyd i ysgolion](#)

Cylchlythyrau

- [Newyddlen y Gymraeg](#)

Gweminarau

Mae manylion pob Gweminar i'w cael [yma](#) ar ein gwefan.

Gwybodaeth a Chanllawiau Llywodraeth Cymru

Y Gweinidog Addysg yn cyhoeddi cynlluniau ar gyfer mynd yn ôl i'r ysgol ym mis Medi

Mae'r Gweinidog Addysg, Kirsty Williams, wedi [cadarnhau](#) y bydd pob disgybl yn gallu dychwelyd i'r ysgol ym mis Medi. [Cliciwch yma](#) i ddarllen llythyr y Gweinidog i ysgolion.



Agwedd Ysgol Gyfan at Ymgynghori ar Iechyd Meddwl

Mae Llywodraeth Cymru wedi [lansio](#) ymgynghoriad agored ar sefydlu dull ysgol gyfan o ymdrin ag iechyd a lles meddyliol. Daw'r ymgynghoriad i ben ar 30 Medi 2020.



Ymgyrch Recriwtio Athrawon

Ar hyn o bryd mae'n amser perffaith i ddechrau eich gyrfa yn y maes addysgu - p'un a ydych chi newydd raddio, neu'n ystyried newid eich gyrfa. Ewch i <https://www.darganfodaddysgu.cymru/> i ddechrau eich taith heddiw.



Cyhoeddi Canllawiau ar gyfer Tymor yr Hydref



Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau ar gyfer tymor yr Hydref i gefnogi ysgolion a lleoliadau i gynyddu eu gweithrediadau ymhellach o Fedi 2020.

Mae'r **canllawiau gweithredol** ar gyfer tymor yr Hydref yn darparu fframwaith ar gyfer awdurdodau lleol, ysgolion a lleoliadau. Mae'n adlewyrchu'r cyngor meddygol a gwyddonol diweddaraf ac mae hefyd yn nodi gwybodaeth fanylach ar sut y gall ysgolion amcangyfrif a rheoli'r risgiau sy'n berthnasol i drosglwyddiad.

Mae'r **canllawiau dysgu** ar gyfer tymor yr Hydref i yn rhoi set gyffredin o flaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer dysgu i ysgolion a phartneriaid, sy'n ddigon hyblyg i ymateb i amodau newidiol. Bydd y canllawiau hyn yn helpu i gefnogi ein hysgolion i sicrhau bod dysgwyr yn parhau i fanteisio ar gwricwlwm eang a chytbwys ac yn parhau i wneud cynnydd yn eu dysgu, waeth sut mae gweithrediadau'n newid. Mae'r canllawiau dysgu yn gyson â'r nodau ac egwyddorion hir-dymor sy'n ymwneud â diwygio'r cwricwlwm.

Dolenni

[Canllawiau gweithredol](#)

[Canllawiau dysgu](#)

[Datganiad Ysgrifenedig Gweinidogol](#)

[Datganiad i'r wasg](#)

System Genedlaethol ar gyfer Categoriaddio Ysgolion 2020/2021

Ar 6 Gorffennaf, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg ei phenderfyniad i atal y System Genedlaethol ar gyfer Categoriaddio Ysgolion ar gyfer blwyddyn academaidd 2020/21 am gyfnod dros dro, oherwydd pandemig Covid-19. Mae hynny'n golygu na fydd ysgolion yn cael eu hasesu na'u rhoi mewn categori cymorth lliw ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf, ac ni fydd unrhyw gategoriâu cymorth yn cael eu cyhoeddi ar wefan Fy Ysgol Leol ym mis Ionawr 2021.

Ceir rhagor o fanylion [yma](#).

Diweddariadau Covid 19 Llywodraeth Cymru

- [Gwefan](#) Coronafrws Llywodraeth Cymru
- Coronafrws (COVID-19): [canllawiau lleoliadau addysgol](#)
- [Addysg a gofal plant: coronafrws](#)
- Coronafrws: [canllawiau teithio i sefydliadau addysg a myfyrwyr](#)
- Cyngor gan Iechyd Cyhoeddus Cymru <https://icc.gig.cymru/pynciau/gwybodaeth-ddiweddaraf-am-coronavirusnewydd-covid-19/>
- Dilynwch ar Twitter [@LIC_Addysg](#) neu www.facebook.com/addysgcymru
- Cofrestrwch i dderbyn Dysg [yma](#)
- [Cyhoeddiad y Gweinidog Addysg - 03/06/2020](#)
- [Llythyr anfonwyd at Benaethiaid a Llywodraethwyr - 06/06/2020](#)
- [Llythyr anfonwyd at Staff Ysgolion yng Nghymru - 12/06/2020](#)
- [Cynlluniau ar gyfer cynyddu gweithrediadau mewn ysgolion a lleoliadau](#)
- [Datganiad Ysgrifenedig: Cyhoeddi canllawiau i gefnogi lleoliadau addysgol i gynyddu capasiti.](#)
- [Canllawiau Gweithredol](#)
- [Canllawiau ar ddysgu dros dymor yr haf](#)
- [Canllawiau Gofal Plant](#)
- [Adran Cwestiynau Cyffredin - Llywodraeth Cymru](#)
- [Rhaglen Cadw'n Ddiogel. Dal ati i Ddysgu](#)
- [Cyngor ar gyfer lleoliadau, ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion \(UCD\) i'w cefnogi yn eu gwaith gyda dysgwyr - Datblygu dulliau i gefnogi dysgu o bell](#)
- [Cefnogaeth i rieni/gofalwyr](#)
- [Offer dysgu o bell drwy Hwb](#)
- [Cyngor newydd i gynorthwyo arweinwyr ysgolion ac UCdau i barhau â busnes ysgol](#)
- [Cefnogi eich plant i ddefnyddio'r Gymraeg gartref](#)
- [Pecyn Cymorth Iechyd Meddwl Pobl Ifanc](#)

Gwybodaeth a Chanllawiau gan Eraill

Cyfleoedd Cyfoethogi STEM Cyffrous gyda Techniquiest

Mae Techniquiest wedi ymateb i'r her o sicrhau eu bod yn parhau i ddarparu gweithgareddau cyfoethogi STEM i ysgolion, ac yn ystod tymor yr Hydref byddant yn mynd yn DDIGIDOL! Ac mae hynny yn golygu nad yw daearyddiaeth bellach yn her - gallant gynnig eu rhaglenni i Gymru gyfan a hyd yn oed yn fyd-eang! Rhagor o wybodaeth [yma](#).

Theatr Iolo - Cystadleuaeth Ysgrifennu Dramâu i Blant a Phobl Ifanc

Rydym ar drywydd awduron ifainc addawol rhwng saith ac un ar bymtheg oed i ysgrifennu drama ddeng munud wreiddiol. Caiff yr enillwyr weld actorion proffesiynol yn perfformio eu drama mewn achlysur rhannu yn Theatr Sherman yn 2021.

Rydym yn awyddus i glywed gan blant a phobl ifanc ledled Cymru ac rydym yn gofyn i gyflwyniadau fod yn wreiddiol, yn ddychmygus ac am unrhyw beth y maent eisiau ysgrifennu amdano. [Cliciwch yma](#) am ragor o wybodaeth.

Hyfforddiant DPP a gwefan Cerdd laith yn defnyddio cerddoriaeth a drama i ddysgu Cymraeg a Sbaeneg

Gall athrawon ysgolion cynradd harneisio pŵer cerddoriaeth a drama i helpu plant ddysgu Cymraeg a Sbaeneg wrth ddefnyddio adnoddau [gwefan newydd](#) yn rhad ac am ddim.

Cafodd adnodd Cerdd laith ei gynhyrchu gan British Council Cymru ac mae'n cynnwys dros 30 o weithgareddau amrywiol sy'n ategu rhaglen hyfforddiant a gynigir gan y British Council.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â TeamWales@britishcouncil.org

Swydd Wag AGAA: Cyfarwyddwr Cynorthwyol ar gyfer Datblygu Arweinyddiaeth a Sicrhau Ansawdd

Mae'r Academi Arweinyddiaeth yn awyddus i benodi Cyfarwyddwr Cynorthwyol ar gyfer Datblygu Arweinyddiaeth a Sicrhau Ansawdd. Bydd y swydd yn gyfrifol am ddatblygu arweinyddiaeth addysgol yn ogystal ag arwain ar ddatblygu a darparu ystod lawn o waith sicrhau ansawdd yr Academi Arweinyddiaeth, gan arwain yn benodol y gwaith cymeradwyo ar gyfer darparu arweinyddiaeth.

Manylion llawn ar gael [yma](#).

DYDDIAD CAU: 15 MEDI 2020

BBC Bitesize

Cofiwch fod llwyth o gynnwys addysgiadol ar gael ar gyfer dysgwyr o bob oedran ar wefan Bitesize. Er ei bod hi'n Haf, mae'r cyfle i ddysgu yn dal yn parhau.

bbc.co.uk/bitesizedyddiol

Arolwg Rhieni Newydd - Coronafirws ac ysgolion yn ailagor

Diolch i'r 257,000 a mwy o rieni a ymatebodd i'n harolwg blaenorol ym mis Mai ar effaith coronafirws a chau ysgolion ar deuluoedd â phlant oed ysgol. Cafodd yr ymateb rhyfeddol o uchel ei grybwyll ar brif newyddion y BBC a sicrhau sylw eang ar y cyfryngau. Gwthiodd hyn lais rhieni i frig yr agenda newyddion, a'n galluogi i rannu eich barn â llunwyr polisi addysg mewn tair o lywodraethau'r DU.

[Cliciwch yma](#) am ragor o fanylion.

Parentkind
Bringing together home & school



Cylchlythyr SSCE Cymru - Haf 2020

Gweler [yma](#) ddolen i lawrlwytho copi o gylchlythyr SSCE Cymru (Haf 2020).



Prifysgol Bangor: Cyfarwyddyd Darllen a Sillafu Ar-lein Am Ddim

Ar hyn o bryd mae ymchwilwyr ac addysgwyr ym Mhrifysgol Bangor yn cynnig cwrs llythrennedd ar-lein AM DDIM ar gyfer disgyblion Cyfnod Allweddol 2 dros weddill y tymor a gwyliau'r Haf. Mae'r gwersi drwy gyfrwng y Saesneg. Mae'r rhaglen hon wedi'i chynllunio'n benodol ar gyfer darpariaeth ar-lein ble bydd disgyblion yn derbyn 8 wythnos o hyfforddiant llythrennedd, a ddarperir gan addysgwyr arbenigol, yn rhad ac am ddim. Gallant wneud hyn naill ai gartref neu, os yw'ch ysgol bellach ar agor, yn y dosbarth. Dim ond mynediad at gyfrifiadur a'r rhyngwrdd sydd ei angen. Y cyfan yr ydym yn gofyn i ysgolion ei wneud yw [anfon yr wybodaeth ymlaen at rieni](#). Rydym yn darparu'r rhaglen ynghyd â'r holl gymorth technegol.

Ceir rhagor o fanylion [yma](#).

Os oes gennych ddiddordeb mewn ymuno â'r astudiaeth hon neu os hoffech gael gwybodaeth bellach, anfonwch e-bost at Cameron Downing [c.downing@bangor.ac.uk] neu Manon Jones [manon.jones@bangor.ac.uk].

Cyrsiau Sabothol Cymraeg

[Cliciwch yma](#) am ragor o wybodaeth am y Cwrs Sabothol Cymraeg mewn Blwyddyn ac i wneud cais.

[Cliciwch yma](#) am ragor o wybodaeth am y Cwrs Sabothol Cymraeg Lefel Ganolradd ac i wneud cais.

post@gwegogledd.cymru

